# Gogledd Cymru



# Adroddiad Blynyddol
2014-15

# Cyflwyniad

## Croeso

**Mae NOMS yng Nghymru wedi ymrwymo i gydweithio â phartneriaid MAPPA i sicrhau bod Cymru yn lle mwy diogel. Rydym yn gweithio'n effeithiol gyda'n partneriaid i reoli y troseddwyr hynny sy'n peri risg mwyaf o niwed difrifol trwy weithredu cynlluniau rheoli risg cadarn, rhannu gwybodaeth ac adolygu prosesau yn rheolaidd. Mae staff NOMS yng Nghymru wedi eu hyfforddi mewn rheoli risg troseddwyr, y rhai yn y gymuned ynghyd ar rhai sy'n y ddalfa. Caiff y risgiau hyn eu rhannu ar hyd taith y troseddwr. Rydym yn sicrhau mai amddiffyn y cyhoedd ac ymgysylltu â MAPPA yw ein blaenoriaeth uchaf.**
**Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn adlewyrchu ein ymdrech parhaus a'n hymrwymiad i atal pobl rhag bod yn ddioddefwyr o niwed difrifol. Mae hefyd yn dangos y pwysigrwydd a roddwn ar adeiladu a chynnal y berthynas gref a effeithiol yr ydym wedi ei sefydlu gyda'r heddlu, sefydliadau partner a chymunedau. Rydym ar ein cryfaf pan fyddwn yn gweithio gyda'n gilydd i amddiffyn y cyhoedd.**

**Sarah Payne**
**Cyfarwyddwr Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yng Nghymru**

**Nawr yn ei 14eg flwyddyn mae Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Amlasiantaethol Gogledd Cymru yn parhau i ddarparu fframwaith ar gyfer amddiffyn y cyhoedd yn erbyn y grŵp o droseddwyr sy'n peri'r risg uchaf o niwed i'r cyhoedd.**

**Mae nifer y troseddau rhyw a treisgar a gyflawnwyd yng Ngogledd Cymru yn cynrychioli cyfran fechan o gyfanswm y troseddau a gofnodwyd, ond gall y troseddau hyn gael effaith fawr ar y dioddefwyr a'u teuluoedd. Dyna pam yma yng Ngogledd Cymry mae amddiffyn y cyhoedd rhag niwed a all rhai troseddwyr beri yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchaf i Heddlu Gogledd Cymru, gan weithio mewn partneriaeth a'r Gwasanaeth Prawf, Gwasanaeth Carchardai a Asiantaethau sydd a Dyletswydd i Gydweithredu. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn cymryd rhan weithredol yn MAPPA ar bob lefel, gyda cyfrifoldeb mewn ehangu cynlluniau rheoli risg cadarn ynghyd a darparu hyfforddiant gwerthfawr yng ngwaith MAPPA i nifer o asiantaethau.**

**Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn wedi ei gynllunio i rhoi golwg gyffredinol ar waith Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Amlasintaethol Gogledd Cymru, a'r gobaith yw y byddwch yn gweld yr adroddiad hwn yn diddorol a llawn gwybodaeth.**



Sarah Payne
Prif Weithredwr
Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol



Mark Polin
Prif Gwnstabl
Heddlu Gogledd Cymru

# Beth yw MAPPA?

## Cefndir MAPPA

(a) Mae MAPPA (Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Aml-Asiantaeth) yn gyfres o drefniadau sy'n rheoli'r risg a gyflwynir gan y troseddwyr rhyw a throseddwyr treisgar mwyaf difrifol (Troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA) yn unol ag adrannau 325 i 327B o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

(b) Maent yn dod â'r Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaethau Carchardai ym mhob un o'r 42 Maes yng Nghymru a Lloegr at ei gilydd i'r hyn y cyfeirir ato fel yr Awdurdod Cyfrifol MAPPA.

(c) Mae dyletswydd ar nifer o asiantaethau eraill i gydweithio â'r Awdurdod Cyfrifol Mae'r rhain yn cynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, Ymddiriedolaethau Iechyd, Timau Troseddau Ieuenctid, Canolfan Byd Gwaith ac Awdurdodau Tai ac Addysg Lleol.

(ch) Mae'n rhaid i'r Awdurdod sy'n gyfrifol benodi dau Gynghorwr Lleyg i eistedd ar bob Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA ochr yn ochr â chynrychiolwyr uwch o bob un o'r Awdurdodau Cyfrifol a'r asiantaethau sydd â dyletswydd i gydweithredu.

(e) Mae'r cynghorwyr lleyg yn aelodau o'r cyhoedd sydd â dim cysylltiad â'r busnes o reoli troseddwyr MAPPA ond sy'n gweithredu fel arsyllwyr annibynnol ond gwybodus; sy'n gallu gofyn cwestiynau efallai na fyddai'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud yn agos â'r gwaith yn meddwl eu gofyn. Byddant hefyd yn gallu cyfrannu eu dealltwriaeth a'u safbwyntiau am y gymuned leol (mae'n rhaid iddynt fod yn byw yn y cymunedau hynny neu fod â chysylltiadau cryf â nhw).

## Sut mae MAPPA'n gweithio

- Bydd troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA yn cael eu hadnabod a bydd gwybodaeth amdanynt yn cael ei rhannu gan yr asiantaethau er mwyn gallu cyfrannu at asesiadau risg a chynlluniau rheoli risg y rhai hynny sy'n eu rheoli neu'n eu goruchwylio.

- Yn y mwyafrif o achosion, dyna pa mor bell mae MAPPA yn mynd ond mewn rhai achosion fe benderfynir bod angen rheolaeth aml-asiantaeth weithredol. Mewn achosion o'r fath fe gynhelir cyfarfodydd MAPPA rheolaidd a fynychir gan yr ymarferwyr asiantaeth perthnasol.

- Mae 3 categori o droseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA: **Categori 1 –** troseddwyr rhyw cofrestredig; **Categori 2** – (yn bennaf) troseddwyr treisgar sydd wedi'u dedfrydu i garchar am 12 mis neu fwy; a **Categori 3** – troseddwyr nad ydynt yn gymwys o dan gategorïau 1 neu 2 ond sy'n peri risg o niwed difrifol.

- Mae tair lefel reoli yn bodoli er mwyn sicrhau bod yr adnoddau yn canolbwyntio ar yr achosion lle mae eu hangen fwyaf; y rhai hynny sy'n cynnwys risg uwch o niwed difrifol fel arfer. Mae **Lefel 1** yn cynnwys rheolaeth gan asiantaeth gyffredin (h.y. dim cyfarfodydd nac adnoddau MAPPA); **Lefel 2** yw lle bydd angen ymyrraeth gan fwy nag un asiantaeth er mwyn rheoli'r troseddwr ond nad yw'r cynlluniau rheoli risg angen presenoldeb nac ymrwymiad adnoddau ar lefel uwch. Ble byddai angen goruchwyliaeth uwch, byddai'r achos yn cael ei reoli ar **Lefel 3**.

Cefnogir MAPPA gan ViSOR. System TG genedlaethol yw hon ar gyfer rheoli pobl sy'n peri risg difrifol o niwed i'r cyhoedd. Mae'r Heddlu wedi bod yn defnyddio ViSOR ers 2005 ond, ers Mehefin 2008 mae ViSOR wedi bod yn gwbl weithredol sydd wedi galluogi, am y tro cyntaf, staff allweddol o'r Heddlu a'r Gwasanaeth Carchardai i weithio ar yr un system TG. Mae hyn wedi sicrhau gwelliant o ran amseriad asesiadau risg ac ymyrraeth er mwyn atal troseddu. Mae defnydd ar y cyd o ViSOR yn cynyddu'r gallu i rannu cudd-wybodaeth ledled sefydliadau ac yn galluogi gwybodaeth allweddol i gael ei throsglwyddo pan fydd y troseddwyr risg uchel hyn yn symud, gan ehangu mesurau diogelu'r cyhoedd. Mae holl adroddiadau MAPPA Cymru a Lloegr yn cael eu cyhoeddi ar-lein yn: www.justice.gov.uk

# Ystadegau MAPPA

| Troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA fel ar 31 Mawrth 2013 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
| Lefel 1 | 649 | 287 | 0 | 936 |
| Lefel 2 | 27 | 59 | 4 | 90 |
| Lefel 3 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Cyfanswm | 676 | 346 | 5 | 1027 |

| Troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA yn Lefelau 2 a 3 yn ôl categori (cyfanswm blynyddol) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
| Lefel 2 | 59 | 75 | 17 | 151 |
| Lefel 3 | 7 | 6 | 2 | 15 |
| Cyfanswm | 66 | 81 | 19 | 166 |

| RSOau a gafodd rybudd/euogfarn am dorri'r gofynion gorchymyn hysbysu | 11 |
|---|---|

| Gorchmynion Cyfyngol ar gyfer troseddwyr Categori 1 | |
|---|---|
| **SOPOs, NOs a FTOs a roddwyd gan y llysoedd** | |
| SOPOs | 73 |
| NOs | 0 |
| FTOs | 0 |

| **Troseddwyr Lefel 2 a 3 a ddychwelodd i'r ddalfa** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig** | **Categori 2: Troseddwyr treisgar** | **Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill** | **Cyfanswm** |
| **Torri amodau trwydded** | | | | |
| Lefel 2 | 2 | 4 | 1 | 7 |
| Lefel 3 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 2 | 4 | 1 | 7 |
| **Torri amodau SOPO** | | | | |
| Lefel 2 | 3 | - | - | 3 |
| Lefel 3 | 0 | - | - | 0 |
| Cyfanswm | 3 | - | - | 3 |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm nifer y Troseddwyr Rhyw Cofrestredig ar gyfer pob 100,000 o'r boblogaeth** | 110 |

Cyfrifwyd y ffigwr hwn gan ddefnyddio'r Amcangyfrif Poblogaeth Canol blwyddyn a gyhoeddwyd ar gyfer Y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar 25 Mehefin 2015, gan eithrio'r rhai hynny o dan 10 oed.

# Esboniad o’r ystadegau yn y tablau

## Cefndir MAPPA

Mae cyfanswm y troseddwyr sy’n gymwys ar gyfer MAPPA, yn ôl categori, yn adlewyrchu'r darlun ar 31 Mawrth 2015, (h.y. ciplun). Mae gweddill y data yn ymwneud â’r cyfnod 1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2015.

**(a) Troseddwyr sy’n gymwys ar gyfer MAPPA –** mae nifer o droseddwyr yn cael eu hystyried gan y gyfraith fel rhai cymwys ar gyfer rheolaeth MAPPA oherwydd eu bod wedi cyflawni troseddau rhywiol a threisgar penodol a/neu bod risg iddynt achosi niwed, er bod y rhan fwyaf ohonynt (91% eleni) yn cael eu rheoli gan drefniadau asiantaeth cyffredin (Lefel 1) yn hytrach na thrwy gyfarfodydd MAPPA.

**Troseddwyr Rhyw Cofrestredig (RSO) -** troseddwyr rhyw sy'n gorfod hysbysu'r heddlu o'u henwau, eu cyfeiriad a manylion personol eraill a'u hysbysu hefyd o unrhyw newidiadau wedi hynny (cyfeirir at hyn fel “angen i hysbysu.”) Mae methu â chydymffurfio â gofynion hysbysiad yn drosedd a allai olygu uchafswm o 5 mlynedd yn y carchar.

**Troseddwyr Treisgar –** mae’r categori hwn yn cynnwys troseddwyr treisgar sydd wedi eu dedfrydu i garchar am 12 mis neu fwy, neu'n cael eu cadw o dan orchmynion ysbyty. Mae’r categori hefyd yn cynnwys nifer fechan o droseddwyr rhyw nad ydynt yn cofrestru a throseddwyr sydd wedi eu gwahardd rhag gweithio â phlant;

**Troseddwyr Peryglus Eraill –** troseddwyr nad ydynt yn gymwys ar gyfer y 2 gategori MAPPA arall ond sydd ar hyn o bryd yn peri risg o achosi niwed difrifol sydd angen ei reoli drwy gyfarfodydd MAPPA.

**Torri amodau trwydded –** bydd troseddwyr sy’n cael eu rhyddhau i’r gymuned yn dilyn cyfnod o garchar o 12 mis neu fwy yn destun trwydded ag amodau’n perthyn iddi (o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf). Os na fydd yr amodau hyn yn cael eu cydymffurfio â nhw, cymerir camau torri amodau a gellir rhoi’r troseddwr yn ôl yn y carchar.

**Gorchmynion Atal Troseddau Rhyw (SOPO) –** Gall llys wneud SOPO pan fyddant yn ymdrin â throseddwyr rhyw penodol neu pan fydd yr heddlu’n gwneud cais arbennig o ganlyniad i ymddygiad y troseddwyr yn y gymuned. Mae’r gorchymyn llawn yn para am o leiaf 5 mlynedd a gallant fod yn barhaol. Bydd SOPO’n gofyn bod angen i’r unigolyn gofrestru fel troseddwr rhyw a gall gynnwys amodau, atal y troseddwr rhag loetran wrth ysgolion neu feysydd chwarae er enghraifft. Os bydd y troseddwr yn methu â chydymffurfio (h.y. torri’r amodau) ag anghenion y gorchymyn, gellir mynd ag ef yn ôl i’r llys a gellir rhoi dedfryd o hyd at 5 mlynedd o garchar iddynt.

**Gorchmynion Hysbysu –** mae’r rhain yn gofyn bod troseddwyr rhyw sydd wedi eu cael yn euog dramor yn cofrestru â’r heddlu er mwyn amddiffyn y cyhoedd yn y DU rhag y risgiau maent yn eu bygwth. Gall yr heddlu wneud cais i’r llys am orchymyn mewn perthynas â throseddwyr sydd eisoes yn y DU neu sy’n bwriadu ymweld â’r DU.

**Gorchmynion Teithio Dramor –** mae’r rhain yn atal troseddwyr sydd wedi eu cael yn euog am droseddau rhyw yn erbyn plant rhag teithio dramor pan fo angen gwneud hynny er mwyn diogelu plant rhag y risg o fod yn destun troseddau rhyw.

# Tudalen Lleol

## Cadeirydd Bwrdd Rheoli Strategol Gogledd Cymru

Eleni fydd fy mlwyddyn llawn olaf fel Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA Gogledd Cymru cyn trosglwyddo'r awenau i'r Llywodraethwr Carchar Newydd Gogledd Cymry. Mae'r Bwrdd Rheoli Strategol wedi cyfarfod ar 4 achlysur yn ystod y flwyddyn. Mae'r perfformiad yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol wedi cael eu adrodd ar ymhob cyfarfod Bwrdd Rheoli Strategol, ac unrhyw faterion o rhan presenoldeb asiantaethau yn y cyfarfod MAPPA wedi cael eu amlygu a mynd i'r afael ym mhob cyfarfod. Ar y cyfan mae Gogledd Cymru yn profi ymgysylltiad da iawn gan holl asiantaethau sydd a dyletswydd i gydweithredu, ac rwyf wedi fy sicrhau gan ymrwymiad yr holl asiantaethau perthnasol i ymgymryd â'u cyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli risg a beri'r gan rhai o droseddwyr risg uchaf Gogledd Cymru. Drwy weithio gyda'n gilydd rydym yn fwy effeithiol wrth gynhyrchu cynlluniau rheoli risg cadarn a darparu mwy o ddiogelwch ar gyfer y cyhoedd yng Ngogledd Cymru.

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol MAPPA

Y Dangosyddion Perfformiad Allweddol yw:

- 90% i achosion MAPPA lefel 3 eu hadolygu dim llai nag unwaith bob 8 wythnos.
- 90% o achosion MAPPA lefel 2 eu hadolygu dim llau nag unwaith bob 6 wythnos.
- Datgelu i gael eu hystyried ar penderfyniad i'w gofnodi yn y cofnodion mewn 100% o cyfarfodydd MAPPA lefel 2 a 3.
- Presenoldeb o 100% gan Dimau Troseddwyr Ifanc a Gwasanaethau Plant mewn cyfarfodydd MAPPA lefel 2 a 3 pan fo'r troseddwr dan 18 oed.
- Presenoldeb o 75% gan bob aelod Bwrdd Rheoli Strategol mewn cyfarfodydd bwrdd Rheoli Strategol.
- Presenoldeb o 90% gan bob asiantaeth sydd a dyletswydd i gydweithredu ar lefel briodol sydd wedi eu gwahodd i bob cyfarfod MAPPA lefel 2 a 3. (Os nad allant fod yn bresennol, gall cynhadledd ffon neu fideo fod yn dderbyniol.)
- Presenoldeb o 90% gan bob cynrychiolydd Gwasanaeth Carchardai ar lefel briodol sydd wedi eu gwahodd i bob cyfarfod MAPPA lefel 2 a 3. (Os nad allan fod yn bresennol gall cynhadledd fideo neu ffôn neu darpariaeth o MAPPA F fod yn dderbyniol).
- Presenoldeb o 90% gan y raddfa briodol gan yr Heddlu mewn bob cyfarfod MAPPA lefel 2 a 3. Arolygydd i gyfarfodydd lefel 2 a Uwch-arolygydd i gyfarfodydd lefel 3.
- Presenoldeb o 90% gan y raddfa briodol gan yr Ymddiriedaeth Prawf mewn bob cyfarfod MAPPA lefel 2 a 3. Mae hyn yn golygu Rheolwr Canol (Uwch Swyddog neu gyfwerth) mewn cyfarfod lefel 2 a ACO (neu Uwch Rheolwr cyfatebol) mewn cyfarfod lefel 3.

## Ymgynghorwyr Lleyg

Mae'r ddau Ymgynghorwyr Lleyg Gogledd Cymru wedi bod yn cymryd rhan weithredol yn MAPPA yn ystod y flwyddyn diwethaf. Bu iddynt fynychu Cynhadledd Cenedlaethol Ymgynghorwyr Lleyg a darparu adborth ar hyn i'r Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA Gogledd Cymru. Roedd nifer o faterion angen sylw ar lefel lleol yn cynnwys:- Carcharorion i gael gwybod eu bod nhw ar ViSOR; Ystyriaeth i'w rhoi i sefydlu is-grwpiau dioddefwyr ymgynghorol; strategaeth ar gyfer delio gyda'r cyfryngau a rôl yr ymgynghorwyr Lleyg o fewn hynny. Maent yn mynychu ac yn cymryd rhan yn y cyfarfodydd chwarterol Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA, ac maent hefyd wedi mynychu ac arsylwi cyfarfodydd MAPPA lefel 2 a 3.Yn fwy diweddar yng Ngogledd Cymru gwnaed penderfyniad i'r Cydlynydd MAPPA gwrdd ar ddau Ymgynghorwyr Lleyg cyn bob cyfarfod Bwrdd Rheoli Strategol i drafod unrhyw faterion perthnasol a rhoi cyfle iddyn godi unrhyw pryderon mewn perthynas â'u harsylwadau.

# COSA

Cefnogi Troseddwyr Rhyw i fyw yn ddiogel yn ein cymunedau.

Mae Cylchoedd Cefnogaeth ac Atebolrwydd (COSA) bellach wedi bod yn gweithredu ers dros wyth mlynedd yng Ngogledd Cymru ac mae'n parhau i darparu gwasanaeth o fewn fframwaith o helpu i rheoli, cefnogi a dal troseddwyr rhy yn atebol o fewn ein cymunedau.

Os nad ydych yn gyfarwydd â'r hyn a wnawn, mae COSA yn gylch gwaith i geisio atal mwy o ddioddefwyr drwy adeiladu cymunedau mwy diogel drwy wirfoddolwyr lleol yn gweithio gyda pobl sydd wedi eu cael yn euog o drosedd rhyw i leihau dieithrio, cefnogi ailintegreiddio ac yn gweithio i atal aildroseddu rhywiol.

Amcan COSA yw i leihau'r risg o gam-drin rhywiol yn sylweddol drwy gynorthwyo a chefnogi troseddwyr sydd wedi dangos ymrwymiad i roi'r gorau i droseddu.

Mae gwirfoddolwyr sydd wedi eu recriwtio'n ofalus a'u hyfforddi'n gynhwysfawr yn cynorthwyo troseddwyr yn y dasg o integreiddio yn eu cymunedau, eu helpu i ddelio a materion ymarferol a rhoi'r cyfle iddynt fyw bwyd cynhyrchiol, cyfrifol ac atebol.
Eleni gwelwyd thai newidiadau i'r prosiect wrth i'r Ymyrraeth Cyfiawnder Cymunedol Cymru, yr elusen sydd wedi cynnal y prosiect COSA dros y saith mlynedd diwethaf uno â CAIS, felly mae COSA erbyn hyn yn rhan o sefydliad cryf CAIS sydd bellach yn rheoli'r prosiect.
Mae COSA yn parhau i fynd o nerth i nerth ac wedi gweithio gyda mwy na 100 o droseddwyr ers ei ddechreuad. Ar hyn o bryd mae'r nifer o atgyfeiriadau yn uchel.

**Meini Prawf ar gyfer atgyweirio**

- Person sydd wedi eu cal yn euog o drosedd rhyw.
- Y troseddwyr yn dangos parodrwydd ac ymrwymiad i roi'r gorau i droseddu.
- Troseddwyr sydd wedi eu neilltu lle nad oes ganddynt fawr o gefnogaeth arwahan i gyfraniad asiantaethau statudol.

Yn y dechrau roedd pryderon y byddai'n anodd dod o hyd i wirfoddolwyr i weithio gyda COSA. Fodd bynnag, mae yna llawer o ddiddordeb gan bobl ar draws Gogledd Cymru sy'n dymuno cael eu hyfforddi i wirfoddoli gyda'r prosiect.
Rydym wedi datblygu partneriaeth ardderchog gyda Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam, lle mae staff COSA yn cyflwyno sgyrsiau i fyfyrwyr ail flwyddyn sydd yn astudio gradd troseddeg. Mae llawer ohonynt wedyn yn dangos diddordeb i wirfoddoli ar gyfer y prosiect.

Yn mis Ebrill bu i 15 o wirfoddolwyr eu hyfforddi i weithio gyda COSA ac hyd yn hyn rydym wedi recriwtio, hyfforddi a chefnogi dros 160 o wirfoddolwyr, gyda 45 arall ar restr aros i gael eu hyfforddi.
Mae pawb yn COSA yn edrych ymlaen at barhau i chwarae ei rhan wrth gwrdd â'r her o reoli achosion MAPPA 2 a 3 ar draws Gogledd Cymru. Rydym yn cael ein annog gan y canlyniadau ardderchog o ganlyniad i arolygiad diweddar gan "Circles UK" sef y corff llywodraethol pob prosiect COSA yng Nghymru a Lloegr.

# Carchar Gogledd Cymru

Bydd y carchar newydd sydd ar hyn o bryd yn cael ei adeiladu yn Wrecsam, Gogledd Cymru yn garchar ailsefydlu dynodedig gyda'r gallu i ddal hyd at 2,106 o garcharorion, yn bennaf oedolion gwrywaidd categori C mewn tri bloc mewnol. Bydd hefyd yn cynnwys man swyddogaeth fechan i wasanaethu'r llysoedd lleol.
Bydd tua un rhan o dri o'r carcharorion o Ogledd Cymru gyda'r gweddill yn dod o ardaloedd cyfagos yn Lloegr,

Bydd y carchar yn sefydliad aml-bwrpasol, modern a weithredi'r gan Gwasanaeth Carchardai ei Mawrhydi. Bydd yn lle gweddus a diogel i ddal carcharorion tra'n cynnig cyfleoedd iddynt i ddatblygu sgiliau gwaith addysg a bywyd sydd eu hangen arnynt er mwyn adsefydlu yn effeithiol.

Dechreuodd Russ Trent Cyn Llywodraethwr HMYOI Brinsford eu swydd fel darpar Llywodraethwr y carchar ar y 1af o Orffennaf. Ef fydd yn arwain y tîm prosiect drwy gynllunio a mobileiddio manwl. Mae hwn yn gyfle cyffroes ar gyfer adfywio economaidd Gogledd Cymru.

# WISDOM

Yn ystod 2015 mae gwaith wedi ei gwblhau yng Ngogledd Cymru gan tîm gweithredu lleol aml asiantaeth i baratoi ar gyfer gweithredu WISDOM fel y dull ar gyfer rheoli troseddwyr sy'n peri risg uchel o niwed erbyn Ionawr 2016. Mae hyn yn deillio o broses ymgynghori a gynhaliwyd yn 2014 gan Tîm Rheoli Troseddwyr Integredig (IOM) Cymru ynghylch a cynigion i ymestyn egwyddorion IOM, sydd yn hanesyddol wedi cael eu targedu tuag at troseddwyr trosedd caffael, tuag at rheoli troseddwyr sy'n peri risg uchel o niwed a troseddwyr peryglus eraill yng Nghymru. Yn dilyn yr adborth cadarnhaol a gafwyd gan asiantaethau partner, mae hyn wedi arwain at sefydlu'r prosiect peilot WISDOM ar draws y pedwar llu heddlu yng Nghymru.

Y bwriad yw y bydd mabwysiadu'r dull IOM yn cryfhau y gallu a cymhwysedd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Heddlu Gogledd Cymru i reoli troseddwyr sy'n peri risg uchel o niwed ac felly gwella diogelwch y cyhoedd a diogelwch cymunedol yn ogystal â lleihau ail droseddu. Mae gweithredu'r model hwn hefyd yn ceisio sicrhau mwy o effeithlonrwydd trwy well integreiddio o adnoddau a lleihau dyblygu; arwain at well cyfunioni gwasanaethau i flaenoriaethu adnoddau'n fwy effeithiol yn ogystal â ehangu trefniadau rhannu gwybodaeth mewn perthynas â grwpiau blaenoriaeth peryglus.

Mae timau aml asiantaeth sydd yn cael eu cydleoli yn rhan annatod o'r model WISDOM ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddatblygu lleoliadau ar draws Gogledd Cymru. O rhan llywodraethu, bydd y cyfrifoldeb beunyddiol ar gyfer yr achosion a rheoli'r o fewn y cynllun WISDOM yn aros gyda'r asiantaeth sy'n dal yr awenau statudol ar gyfer eu rheoli. Ar sail strategol bydd cynllun peilot Gogledd Cymru yn adrodd i Fwrdd Rheoli Strategol Gogledd Cymru ynghyd a thrwy fframwaith IOM Cymru ar lefel cenedlaethol yng Nghymru.

Mae holl adroddiadau MAPPA Cymru a Lloegr yn cael eu cyhoeddi ar-lein yn:

www.justice.gov.uk

## . Cysylltwch â ni


PGC Richard Debicki
Prif Gwnstabl Cynorthwyol
Heddlu Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu, Glan Y Don,
Bae Colwyn
LL29 8AW
Ffôn: 0300 330 0101

Andy Jones
Cadeirydd MAPPA SMB Gogledd Cymru
Prif Weithredwr Cynorthwyol
Prawf Cymru
Conway Road,
Bae Colwyn
LL29 7AA
Ffôn: 01492 530 600

Carolyn Clark
Cydlynydd MAPPA
Heddlu Gogledd Cymru
Uned Diogelu'r Cyhoedd
SSU Llanelwy
Llanelwy
LL17 0HW
Ffôn: 01745 588 649